



# Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

i weithio yn y maes blynyddoedd cynnar a gofal  
plant yng Nghymru

Ebrill 2017



## Rhagair

Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, gan ysgwyddo cyfrifoldeb dros y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n gweithio yn y sector preifat a gwirfoddol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi safonau uchel ar draws y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod gan y gweithlu yng Nghymru y sgiliau a'r cymwysterau priodol i weithio i safon broffesiynol uchel, a'i fod yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel. Mae'r *Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru wrth wraidd y gwaith hwnnw*.



## Cynnwys

<b>Adran 1: Cyflwyniad a chanllawiau</b>	<b>5</b>
1.1 Meysydd gwasanaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant	6
1.2 Diffiniadau o rolau swydd	6
1.3 Statws y Rhestr Cymwysterau	6
1.4 cymwysterau sydd eu hangen i fodloni'r rheoliad	6
1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni Polisi Llywodraeth Cymru	7
1.6 Cymwysterau blaenorol a dderbynnir i ymarfer	7
1.7 Meini prawf i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau	7
1.8 Cymwysterau nad ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio	8
1.9 Cyfwerthedd a dysgu blaenorol	9
1.10 Cymwysterau a gaiff eu hennill y tu allan i Gymru	9
1.11 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant	9
1.12 Datblygiad proffesiynol parhaus	9
1.13 Cymwysterau academiaidd ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus	10
1.14 Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru	10
<b>Adran 2: Cymwysterau sy'n ofynnol gan reoliad i weithio o fewn cyfleusterau Gofal Dydd Llawn a Chyfleusterau Crèche gyda phlant o dan wyth oed</b>	<b>11</b>
– Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol	11
– Ymarferydd Meithrinfa	13
– Uwch Ymarferydd / Dirprwy Reolwr Meithrinfa	15
– Rheolwr Meithrinfa	17
<b>Adran 3: Cymwysterau sy'n ofynnol gan reoliad i weithio fel Gwarchodwr Plant ac ym maes Gofal Plant yn y Cartref (Nani) - Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol</b>	<b>19</b>
– Gwarchodwr Plant	19
- Cymwysterau Cymeradwy ar gyfer Gofal Plant yn y Cartref (Nani)	20

<b>Adran 4: Cymwysterau sy'n ofynnol gan reoliad i weithio ym maes Gofal Dydd Sesiynol</b>	<b>22</b>
– Ymarferydd Sesiynol Cynorthwyol	22
– Ymarferydd Sesiynol	24
– Uwch Ymarferydd / Dirprwy Reolwr Sesiynol	26
– Rheolwr Sesiynol	28
<b>Adran 5: Cymwysterau sy'n ofynnol gan Bolisi Llywodraeth Cymru i weithio o fewn Dechrau'n Deg</b>	<b>30</b>
– Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd Dechrau'n Deg	30
– Ymarferydd Dechrau'n Deg	32
– Arweinydd Dechrau'n Deg	34
<b>Adran 6: Cymwysterau sy'n ofynnol gan Bolisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen</b>	<b>35</b>
– Ymarferydd Meithrinfa	35
<b>Rhestr termau</b>	<b>37</b>

## Adran 1 – Cyflwyniad a chanllawiau

Mae'r *Rhestr o'r cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru* wedi'i chydgynhyrchu gyda'r sector ar gyfer y sector. Mae'r rhestr yn darparu canllawiau i gyflogwyr, ymarferwyr, darparwyr dysgu a sefydliadau eraill ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant ar y cymwysterau galwedigaethol gofynnol i'r rheini sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant gyda phlant o dan wyth oed.

Dylid defnyddio'r rhestr hon ar y cyd â'r *Rhestr Cymwysterau* a gynhyrchwyd gan Skills Active, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gweithwyr chwarae ac unrhyw restr arall a ddatblygir gan Gynghorau Sgiliau Sector sy'n gyfrifol am rannau o'r gweithlu blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau (ee: iechyd, addysg). Dylid ei defnyddio hefyd ar y cyd â safonau gwasanaeth a rheoliadau, lle y nodir hynny gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae llwyddo i gyflawni cymwysterau yn dibynnu ar aseswyr sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r gallu i helpu pobl drwy eu cymwysterau. Mae buddsoddi i ddatblygu'r gweithlu drwy gyflawni cymwysterau yn helpu i greu diwylliant o ddysgu a meithrin y cymhwysedd sydd ei angen ar gyfer aseswyr y dyfodol a chryfhau'r broses o broffesiynoleiddio'r gwasanaeth a'r sefydliad cyfan.

Mae'n bwysig annog diwylliant o hunanwelliant a dysgu proffesiynol parhaus ymhlith ymarferwyr. Dylai hyn gychwyn wrth iddynt ymuno â'r gweithlu. Mae *Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* yn rhoi dechrau strwythuredig i weithwyr ac yn helpu i nodi anghenion datblygu.

Mae gweithio ym maes gofal plant yn golygu cymaint mwy na goruchwyllo plant: er y gall ymarferwyr weithio gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n ymddangos yn ddiymdrech, er mwyn gwneud hyn yn dda mae angen iddynt fod yn weithwyr proffesiynol cymwys gyda lefel uchel o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn golygu datblygu gwybodaeth a sgiliau person yn barhaus gydol ei fywyd gwaith, ac mae'n cadw pobl yn frwdfrydig ac yn datblygu arfer da a gwasanaethau o safon.

Mae DPP yn bwysig gan ei fod yn sicrhau eich bod yn parhau i fod yn gymwys yn eich proffesiwn. Ar wahân i ddysgu rhywbeth newydd, mae sawl rheswm dros ddilyn DPP. Mae DPP yn gallu rhoi gwybodaeth newydd i chi a all eich helpu chi i ymdrin â sefyllfaoedd newydd neu gymhleth; mae'n gallu'ch helpu chi i gyflawni'ch nodau gyrfa trwy ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu, bydd yn rhoi hyder i chi yn eich rôl ac yn dangos eich ymrwymiad i ddatblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth. Bydd DPP yn eich cadw chi'n frwdfrydig ac yn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau gennych chi; mae hyn yn hynod bwysig ar ôl seibiant gyrfa.

### Adnoddau ategol:

- Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru
- Egwyddorion Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru
- Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Rheolwr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

## **Hyfforddiant gorfodol arall:**

Mae hyfforddiant gorfodol arall yn ofynnol fel rhan o'r gofynion cofrestru a rheoleiddio, er enghraifft, cymorth cyntaf. Darllenwch y rheoliadau a chysylltwch ag AGGCC i gael mwy o arweiniad.

### **1.1 Meysydd gwasanaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn ôl troed Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae 'ôl troed' Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cwmpasu gwasanaethau gofal dydd i blant o dan wyth oed. Maent yn cynnwys: cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche; gwarchod plant a gofal dydd sesiynol. I weld y diffiniadau o'r meysydd hyn, ewch i'r Rhestr termau.

Mae gofynion cymwysterau ychwanegol ynghlwm wrth ddarpariaeth Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen sy'n rhan o wasanaethau gofal dydd o gymharu â'r rheini a nodir yn y rheoliadau ar gyfer gofal plant rheoledig. Pennwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru ac fe'u nodir yn y tablau cymwysterau.

### **1.2 Diffiniadau o rolau swydd ar gyfer y Cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad**

Gweler y Rhestr termau.

### **1.3 Statws y Rhestr Cymwysterau**

#### **1.3.1 A oes rhaid i'm cymhwyster fod ar y rhestr?**

Oes. Dyma'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn gallu ymarfer ar gyfer ar gyfer gofal plant rheoledig a Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r cymwysterau a dderbynnir ar hyn o bryd yn ymddangos yn y golofn gyntaf ar y rhestr.

### **1.4 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni rheoliadau**

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i leoliadau gofal plant; eu nod yw sicrhau gwasanaethau diogel o safon uchel. Fe'u cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn eu hystyried wrth gynnal arolygiadau. Gall fod gofynion cymwysterau ychwanegol nad ydynt yn ofynnol gan reoliadau ond sy'n ofynnol o dan bolisiau Llywodraeth Cymru.

## **1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni Polisi Llywodraeth Cymru**

Mae'r cymwysterau ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen wedi ei gosod ar lefel uwch gan polisi Llywodraeth Cymru.

## **1.6 Cymwysterau blaenorol a dderbynnir i ymarfer**

### **1.6.1 Beth os yw fy nghymhwyster yn ymddangos yn y golofn cymwysterau blaenorol? Alla i ymarfer o hyd?**

Os yw'ch cymhwyster yn ymddangos yn y golofn cymwysterau blaenorol a dderbynnir i ymarfer, gallwch chi ymarfer ond rhaid i chi sicrhau eich bod gennych chihyfforddiant a'r datblygiad diweddaraf. Darllenwch yr adran Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

## **1.7 Meini prawf i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau**

Er mwyn i gymhwyster gael ei dderbyn a'i roi ar y Rhestr, mae wedi bodloni cyfres o feini prawf y cyfeirir atynt fel yr 'egwyddorion dylunio', a'r hyn sydd o'r pwys mwyaf yw eu bod yn Seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a bod cymhwysedd yn cael ei asesu yn y gweithle.

### **1.7.1 Graddau newydd sy'n bodloni egwyddorion dylunio**

Mae'r graddau newydd hyn yn bodloni'r egwyddorion dylunio gan fod asesiad o gymhwysedd wedi'i gynnwys fel rhan annatod o strwythur y cymwysterau.

### **1.7.2 Nid yw fy nghymhwyster ar y rhestr, alla i ymarfer o hyd?**

Y cymwysterau sy'n ymddangos ar y rhestr yw'r cymwysterau sydd eu hangen i ymarfer o dan y rheoliad ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio a Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen lle bo hynny'n berthnasol. Os nad yw'ch cymhwyster yn ymddangos, nid yw'r cymhwyster priodol gennych i gyflawni'r rôl honno. Dylech chi siarad ag AGGCC a fydd yn gallu rhoi mwy o help i chi.

Os yw'ch cymhwyster mewn Gwaith Chwarae, cyfeiriwch at Restr o Gymwysterau Gofynnol Skills Active i weithio yn y sector Gwaith Chwarae yng Nghymru [skillsactive.com/country/wales/list-of-required-qualifications-for-wales-playwork](https://skillsactive.com/country/wales/list-of-required-qualifications-for-wales-playwork)

### 1.7.3 Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD):

Mae'r egwyddorion dylunio ar gyfer datblygu unrhyw gymwysterau a darpariaeth addysg llawn amser – y diploma estynedig – wedi'u rhestru isod:

- Rhaid iddynt gynnwys Diploma'r cymhwyster cymhwysedd galwedigaethol mewn CCLD (a ddyfynnir yn y Datganiad Polisi Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd gan Lywodraeth Cymru);
- Rhaid i'r teitl adlewyrchu'r cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol yn eglur;
- Rhaid iddynt fod yn addas at y diben yng Nghymru a bodloni gofynion Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen;
- Rhaid iddynt ddarparu opsiwn dilyniant i AU gyda 360-420 o bwyntiau UCAS;
- Darparu pwynt ymadael gydag achrediad uned a/neu ddiplomâu (dim arall, felly ni chaiff dyfarniadau a thystysgrifau eu datblygu fel pwyntiau gadael);
- Rhaid iddynt gynnig opsiwn llawn amser er mwyn rhoi amser i ddysgwyr iau ddysgu, datblygu, aeddfedu a phrofi eu cymhwysedd;
- Dylent gynnwys unedau cyffredinol y gall unrhyw gorff dyfarnu eu cynnig;
- Dylent ddarparu ychwanegedd i gyflogwyr o ran cyflogadwyedd a chymysgedd sgiliau ar gyfer eu timau staff.

## 1.8 Cymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau nad ydynt yn bodloni'r egwyddorion dylunio

### 1.8.1 Edexcel BTEC Diploma Cyntaf CCLD (Lefel 2) / Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gofal Plant ac Addysg (NQF)

Bydd y cymwysterau hyn yn parhau ar y rhestr gyfredol fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (QCF) ond dim ond os dechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2014 y cânt eu derbyn.

### 1.8.2 Tystysgrif Genedlaethol Iefel 3 Edexcel BTEC / Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant – CCLD

Dim ond os dechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2014 y caiff y cymwysterau hyn eu derbyn.

### 1.8.3 BA y Blynyddoedd Cynnar a B.Ed / BA Addysg Gynradd

Nid yw'r cymwysterau hyn yn bodloni'r egwyddorion dylunio (h.y. yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a bod cymhwysedd yn cael ei asesu yn y gweithlu) i ymarfer mewn unrhyw leoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant, felly ni chânt eu derbyn oni bai:

- y dechreuwyd astudio ar eu cyfer cyn 2010
- eu bod gan rai sy'n gweithio o fewn gwasanaethau'r Cyfnod Sylfaen.



## 1.9 Cyfwerthedd a dysgu blaenorol

Cymwysterau eraill neu ddysgu blaenorol – efallai y credwch chi fod gennych chi gymhwyster sy'n cyfateb neu'n debyg i un o'r cymwysterau ar y rhestr hon. Nid oes modd i gyflogwyr neu Gofal Cymdeithasol Cymru wirio hyn ar gyfer pawb, dim ond trwy edrych ar y rhestr o bethau a astudiwyd gennych, neu'ch tystysgrifau. Dim ond tystysgrifau ar y rhestr hon a dderbynnir yng Nghymru, ond gallai'r cymhwyster neu'r dysgu sydd gennych chi gyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r safonau ar gyfer cymwysterau Cymru. Efallai y gall cyrff dyfarnu eich helpu i wirio a ydych chi angen mwy o ddysgu neu beth arall sydd angen i chi ei wneud i gael cymhwyster ar y rhestr hon. Gall hyn olygu trosi eich cymhwyster fel ei fod yn cyfateb i'r hyn sydd ei angen yng Nghymru. Maent yn gwneud hyn trwy baru a phrofi'ch dysgu, eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd eu hangen ar gyfer y cymwysterau ar y rhestr hon.

## 1.10 Cymwysterau a gaiff eu hennill y tu allan i Gymru

Dim ond y cymwysterau blynyddoedd cynnar hynny a gynigir yng Nghymru a nodir ar y Rhestr Cymwysterau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cytuno gyda phartneriaid eraill yn y DU pa gymwysterau'r blynyddoedd cynnar a gaiff eu derbyn yng Nghymru o wledydd eraill y DU.

Lle bydd ymarferydd yn meddu ar gymhwyster a enillwyd y tu allan i Gymru ond o fewn gwledydd eraill y DU, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am recriwtio gyfeirio at gyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru o'r enw Cymwysterau ar draws ffiniau – Cymharu cymwysterau cymhwysedd ar draws y DU; mae hwn yn amlinellu'r cymwysterau blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n dderbyniol er mwyn i ymarferwyr weithio yng Nghymru.

## 1.11 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru yn darparu strwythur ar gyfer sefydlu ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan amlinellu beth y mae angen i ymarferydd y blynyddoedd cynnar allu ei wybod a'i wneud yn ystod ei chwe mis cyntaf mewn swydd. Mae Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar i Gymru yn helpu i ddatblygu ymarferwyr medrus, cymwys a diogel ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant. At hynny, mae gofyniad o fewn y rheoliadau ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio<sup>6</sup> y dylai pob ymarferydd gael hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau diogelu plant yn ystod ei wythnos gyntaf mewn swydd.

## 1.12 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae'r drydedd golofn yn y rhestr yn ceisio nodi ac awgrymu cymwysterau neu unedau sy'n gallu helpu i symud gyrfaedd yn eu blaenau a datblygu'ch rôl fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus. Gallai hyn fod mewn arweinyddiaeth a rheolaeth Lefel 5 neu fel uwch ymarferydd Lefel 5.

Yn ogystal, gellir dilyn unedau annibynnol penodol o'r casgliad o gymwysterau sydd ar gael i ddarparu dysgu parhaus mewn meysydd penodol. Mae cyfres o daflenni mapio wedi'u datblygu sy'n amlinellu'r unedau mwyaf priodol i ymarferwyr sy'n gweithio yn y gwahanol feysydd o fewn y blynyddoedd cynnar a gofal plant; mae'r rhain ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

### 1.13 Cymwysterau academiaidd a dysgu ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod gwerth cymwysterau academiaidd wrth ddatblygu a gwella gwybodaeth ac ymarfer ymarferydd. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn awgrymu y gellir cysylltu â SAUau a darparwyr AB i gael rhagor o wybodaeth a chngor.

### 1.14 Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn annog ymdrechion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sensitifwydd diwylliannol. Ni ddylid diystyru pwysigrwydd deall datblygiad iaith a datblygiad dwyieithog o fewn cyd-destun penodol Cymru. Mae gan y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant gyfraniad hollbwysig i'w wneud at gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru a gweld nifer y siaradwyr Gymraeg yn cynyddu i filiwn erbyn 2050.

Fel darparwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant, un o'r sgiliau pwysicaf sydd eu hangen ar eich staff yw *sgiliau cyfathrebu*. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r plant a'u teuluoedd, aelodau eraill o staff a phartneriaid allanol e.e. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae cyfathrebu yn iaith ddewisol y plentyn a'r teulu yn bwysig er mwyn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Mae rhai o'r cymwysterau a restrir ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid gofyn am gyngor gan sefydliadau dyfarnu lle bo angen cymwysterau o'r fath.

<sup>1</sup> Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru

<sup>2</sup> Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru

<sup>3</sup> Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen – Cynllun Gweithredu. Dogfen Wybodaeth Rhif:025-06 AADGOS Rhagfyr 2006

<sup>4</sup> Proffesiynoleiddio: cyfraniad datblygu'r gweithlu Strategaeth Cymwysterau a Dysgu'r Sector 2012-2017

<sup>5</sup> Y Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

<sup>6</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebril 2016

<sup>7</sup> Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol Cymru 2012

## Adran 2 – Cymwysterau sy'n ofynnol i'r rheini sy'n gweithio o fewn cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche gyda phlant o dan wyth oed

### Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan 8 oed – Ymarferydd Meithrinfa Cynorthwyol

#### Cyfran y gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad–

Ar gyfer gofal dydd llawn, dylai o leiaf 80 y cant o'r staff nad oes ganddynt rôl oruchwylio feddu ar gymhwyster ar lefel 2<sup>8</sup> o leiaf

#### Cymwysterau cyfredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh
- **Diploma Cyntaf CCLD BTEC EDEXCEL (Lefel 2)<sup>9</sup>**
- **Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant (NQF)<sup>10</sup>**

#### Mae'r graddau newydd a restrir isod yn bodloni'r egwyddorion dylunio a dderbynnir ar gyfer ymarfer yng Nghymru:

- Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD<sup>12</sup>
- Prifysgol De Cymru: BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol De Cymru: Fd Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd: BA (Anrh) Astudiaethau Plentynod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Glyndŵr: Fd Astudiaethau Plentynod Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: BA Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (EYP) a Gradd Meistr integredig mewn Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)

### Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad

- NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)
- NVQ Lefel 2 mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 2 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Tystysgrif CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant (CCE)
- Diploma Cyntaf mewn Blynyddoedd Cynnar / Nyrsio Meithrin

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh

**Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru<sup>1</sup>.**

<sup>8</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebril 2016

<sup>9</sup> Gweler y canllawiau

<sup>10</sup> Gweler y canllawiau

<sup>1</sup> [www.gofalcymdeithasol.cymru](http://www.gofalcymdeithasol.cymru)

## Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan wyth oed – Ymarferydd Meithrinfa

### Cyfran y gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad –

Dylai o leiaf 50 y cant o'r rhain feddu ar gymhwyster ar lefel 3<sup>11</sup>

### Cymwysterau cyfredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh
- Diploma Estynedig CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

### Mae'r graddau newydd a restrir isod yn bodloni'r egwyddorion dylunio a dderbynnir ar gyfer ymarfer yng Nghymru:

- Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD<sup>12</sup>
- Prifysgol De Cymru: BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol De Cymru: Fd Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd: BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Glyndŵr: Fd Astudiaethau Plentyndod Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: BA Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (EYP) a Gradd Meistr integredig mewn Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)

### Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Diploma (CACHE) mewn Gofal ac Addysg Plant
- Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Meithrin
- Dyfarniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i weithwyr chwarae (dyfarniadau trosiannol)
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Gweithio gyda Phlant
- Diploma CACHE mewn Nyrsio Meithrin (DNN) (NNEB yn flaenorol)
- Diploma mewn Gofal ac Addysg Plant (DCE)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)
- Diploma Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Astudiaethau Plentyndod (Nyrsio Meithrin)
- Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Plentyndod (Nyrsio Meithrin)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Diploma Cenedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Tystysgrif Lefel 4 y Brifysgol Agored mewn Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- **Unedau pellach** o Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh
- **Unedau** o Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch) Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh

**Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.**

<sup>11</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebril 2016

<sup>12</sup> Gweler y canllawiau

## Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan wyth oed – Uwch Ymarferydd Meithrinfa/Dirprwy Reolwr Meithrinfa

### Cyfran y gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad –

Dylai o leiaf 50 y cant o'r rhain feddu ar gymhwyster ar lefel 3

### Cymwysterau cyfredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh
- Diploma Estynedig CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- **Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD<sup>13</sup>**

### Mae'r graddau newydd a restrir isod yn bodloni'r egwyddorion dylunio a dderbynnir ar gyfer ymarfer yng Nghymru:

- Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD<sup>12</sup>
- Prifysgol De Cymru: BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol De Cymru: Fd Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd: BA (Anrh) Astudiaethau Plentynod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Glyndŵr: Fd Astudiaethau Plentynod Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: BA Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (EYP) a Gradd Meistr integredig mewn Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)

### Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Diploma (CACHE) mewn Gofal ac Addysg Plant
- Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Meithrin
- Dyfarniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i weithwyr chwarae (dyfarniadau trosiannol)
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Gweithio gyda Phlant
- Diploma CACHE mewn Nyrsio Meithrin (DNN) (NNEB yn flaenorol)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Diploma Cenedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Cynnar (Nyrsio Meithrinfa)
- Tystysgrif Lefel 4 y Brifysgol Agored mewn Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Ymarfer Uwch) Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh

**Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.**

<sup>13</sup> Gweler y canllawiau



## Cyfleusterau gofal dydd llawn a chyfleusterau crèche i blant o dan wyth oed – Rheolwr Meithrinfa

**Cyfran y gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad** – cant y cant<sup>14</sup>  
Dylai'r unigolyn cyfrifol feddu ar gymhwyster lefel 3 o leiaf

### Cymwysterau cyfredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) y FfCCh
- Diploma Estynedig CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- **BA Blynyddoedd Cynnar a B.Ed/BA Addysg Gynradd**<sup>15</sup>
- **Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD**<sup>16</sup>

### Mae'r graddau newydd a restrir isod yn bodloni'r egwyddorion dylunio a dderbynnir ar gyfer ymarfer yng Nghymru:

- Tystysgrif Genedlaethol/Diploma Lefel 3 BTEC EDEXCEL mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - CCLD<sup>12</sup>
- Prifysgol De Cymru: BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol De Cymru: Fd Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar)
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd: BA (Anrh) Astudiaethau Plentynod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Glyndŵr: Fd Astudiaethau Plentynod Cynnar (EYPS)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: BA Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (EYP) a Gradd Meistr integredig mewn Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar)

### Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad

- Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Diploma (CACHE) mewn Gofal ac Addysg Plant
- Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Meithrin
- Dyfarniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i weithwyr chwarae (dyfarniadau trosiannol)
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Gweithio gyda Phlant
- Diploma CACHE mewn Nyrsio Meithrin (DNN) (NNEB yn flaenorol)
- Diploma mewn Gofal ac Addysg Plant (DCE)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)
- Diploma Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Gofal (Nyrsio Meithrin)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Astudiaethau Plentyndod (Nyrsio Meithrin)
- Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Plentyndod (Nyrsio Meithrin)
- Tystysgrif Genedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar
- Diploma Cenedlaethol mewn Blynyddoedd Cynnar

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Rheoli) Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh

**Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.**

<sup>14</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebril 2016

<sup>15</sup> Gweler y canllawiau

<sup>16</sup> Gweler y canllawiau

## Adran 3 – Cymwysterau sy'n ofynnol gan y reoliad i weithio fel Gwarchodwr Plant neu Ofalwr yn y Cartref (Nani) - Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn weithwyr gofal plant proffesiynol sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain i ddarparu gofal ac addysg i blant pobl eraill mewn lleoliad teuluol. Mae nani yn unigolyn sy'n darparu gofal i un plentyn neu fwy mewn cartref teuluol fel gwasanaeth.

Mae'r uned o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau a restrir yn yr adran hon yn uned arbenigol ar gyfer gweithio fel gwarchodwr plant a gofalwr yn y cartref yn unig **ac ni ellir** ei throsglwyddo ar draws y sector cyfan fel cymhwyster.

<b>Gwarchodwr Plant</b>
<p><b>Cyfran y gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad</b> – cant y cant<sup>17</sup> Dylai'r gwarchodwr plant fod wedi cwblhau cwrs cyn cofrestru priodol a gydnabyddir ar restr bresennol Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>
<b>Cymwysterau cyfredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoliad</b>
CYPOP 5 <sup>18</sup> Deall sut i sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref (gofyniad ar gyfer cofrestru). <b>Un o unedau'r FfCCh yw hon, ac nid yw'n gymhwyster.</b>
<b>Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystysgrif mewn Ymarfer Gwarchod Plant</li> <li>• Diploma mewn Ymarfer Gwarchod Plant</li> <li>• Diploma mewn Gofal Plant yn y Cartref (Lefel 3)</li> </ul>
<b>Datblygiad Proffesiynol Parhaus</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh</li> </ul>
<b>Dylai ymarferwyr sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant neu sy'n newydd i sefydliad gwblhau Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru.</b>

<sup>17</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebril 2016

<sup>18</sup> Gellir cyfeirio at CYPOP 5 hefyd drwy enw / rhif uned gwahanol. cadarnhewch gyda'r sefydliad dyfarnu neu'r darparwr dysgu.

## Gofalwr yn y cartref (Nani)

Cymwysterau cymeradwy i nanis o dan y cynllun cymeradwyaeth wirfoddol. Mae'r uned o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau a restrir yn yr adran hon yn uned arbenigol ar gyfer gweithio fel gwarchodwr plant a gofalwr yn y cartref yn unig **ac ni ellir** ei throsglwyddo ar draws y sector cyfan fel cymhwyster.

### Cymwysterau cymeradwy

CYPOP 5<sup>18</sup> Deall sut i sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref (gofyniad ar gyfer cofrestru). **Un o unedau'r FfCCh yw hon, ac nid yw'n gymhwyster.**

#### Neu

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh
- Diploma Lefel 5 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh
- Diploma Estynedig CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

### Cymwysterau eraill a dderbynnir ar gyfer rheoliad

- Tystysgrif mewn Ymarfer Gwarchod Plant
- Diploma mewn Ymarfer Gwarchod Plant
- Diploma mewn Gofal Plant yn y Cartref (Lefel 3)

#### Neu

- Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant
- NVQ Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Diploma (CACHE) mewn Gofal ac Addysg Plant
- Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Meithrin
- Dyfarniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i weithwyr chwarae (dyfarniadau trosiannol)

- Tystysgrif Lefel 3 mewn Gweithio gyda Phlant

### **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

- Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, Cymru a Gogledd Iwerddon y FfCCh

